# Paratoi ar gyfer yr Ysgol

## Y tymor rydych yn cael eich pen-blwydd yn 4 oed

Mae bron yn amser i ddechrau yn yr ysgol!

Dyma rai pethau y gallwch eu hymarfer gartref i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr ysgol.

## Hunanofal ac Annibyniaeth

Anogwch eich plentyn i:

- golchi a sychu ei (d)dwylo'n annibynnol
- bod yn barod i fynd i'r toiled yn annibynnol i raddau helaeth
- gofyn am y toiled
- gwisgo a dadwisgo yn fwyfwy annibynnol
- gwisgo a thynnu ei got/chot
- defnyddio hances bapur i sychu ei drwyn/thrwyn
- yn hapus i beidio â bod gyda Mam, Dad neu ofalwr

## Chwarae ag eraill

Helpwch eich plentyn i:

- derbyn disgyblaeth, gan ddangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir
- cofio rheolau heb fod angen i oedolyn ei (h)atgoffa
- cydweithio wrth chwarae ag eraill
- rhannu a chymryd ei dro/thro
- cymryd rhan a helpu gydag arferion cyfarwydd e.e. tacluso teganau, gosod y bwrdd

## Siarad a Gwrando

Anogwch eich plentyn i:

- mwynhau gwrando ar straeon hirach a chofio llawer o'r hyn sy'n digwydd
- deall cwestiwn neu gyfarwyddyd sydd â dwy ran iddo e.e. "Cer i ôl dy got a cher i aros wrth y drws"
- mynegi anghenion, dymuniadau, dewisiadau a theimladau gan ddefnyddio ymadroddion neu frawddegau.
- Siarad am luniau a straeon gan ddefnyddio amrywiaeth o eiriau am liw, maint a safle
- deall digwyddiadau yn y dyfodol a siarad amdanynt, e.e. Byddwn yn mynd i siopa

## Bwyta ac Yfed

Siaradwch â'ch plentyn am sut i:

- bwyta'n fedrus ar ben ei hun gan ddefnyddio llwy a fforc
- eistedd wrth y bwrdd i fwyta cinio
- yfed o gwpan agored heb sarnu

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Sgiliau Llythrennedd

Helpwch eich plentyn i:

- dal pensil yn gywir ac yn gadarn
- ceisio lliwio lluniau syml
- codi llyfr ac edrych ar luniau a thrafod ag oedolion neu blant eraill.
- dal llyfr y ffordd gywir a throi'r tudalennau.
- eistedd a gwrando ar stori
- trasio patrymau syml
- adnabod ei (h)enw yn ysgrifenedig
- ymarfer ysgrifennu ei (h)enw

## Sgiliau Mathemategol

Helpwch eich plentyn i:

- canu rhigymau a chaneuon am rifau
- cwblhau jig-so sydd â 6 neu ragor o ddarnau
- adrodd rhifau hyd at 5 a'r tu hwnt
- defnyddio a deall iaith sy'n gysylltiedig â safle
- siarad am siapiau 2D a'u harchwilio
- nodi'r patrymau o'u cwmpas a siarad amdanynt e.e. streipiau ar ddillad
- cyfateb pethau un i un e.e. rhoi plât/cwpan i bob doli
- cyfrif gwrthrychau gan ddweud un rhif ar gyfer pob gwrthrych, a hynny mewn trefn.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council